Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Fel Academi Rhwydweithio Cisco, mae'r Brifysgol Agored yn cynnig cwricwlwm Mynediad Ardystiedig Cisco (ICND2) – fersiwn 6, sy'n darparu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sylfaenol sydd eu hangen er mwyn ffurfweddu LAN/WAN ar raddfa fawr drwy ddefnyddio cyfarpar Cisco. Fel rhan o'ch astudiaethau, byddwch yn cwblhau'r cyrsiau 'Graddio rhwydweithiau' a 'Chysylltu Rhwydweithiau' a gynigir gan Systemau Cisco ac yn cael profiad ymarferol o ffurfweddu rhwydweithiau yn ystod diwrnod gorfodol yn yr ysgol. Dylai cwblhau TM357 eich paratoi ar gyfer arholiad ICND2 ac arholiad ardystio Cisco CCNA, sy'n safonol i'r diwydiant. Bydd angen i chi wneud eich trefniadau eich hun i sefyll yr arholiadau hyn – mae canolfannau arholi ar gael ym mhob cwr o'r byd.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r fanyleb gyffredinol ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- Achrediad hyfforddwr Cisco i addysgu CCNA3 a CCNA4 o fewn Netacad.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4